| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 2 |

**TAG UWCH**

1570N50-1

S23-1570N50-1

**DYDD MAWRTH, 23 MAI 2023 – BORE**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## Uned 5 – Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion

2 awr 30 munud

| | I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A** | **1.** | **20** | |
| | **2.** | **20** | |
| **Adran B** | **3.** | **18** | |
| | **4.** | **24** | |
| | **5.** | **18** | |
| | **Cyfanswm** | **100** | |

1570N501 01

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae cwestiynau Adran A yn ymwneud â'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Dylech chi rannu eich amser yn briodol.

100 yw cyfanswm nifer y marciau sydd ar gael.

Cofiwch fod angen defnyddio Cymraeg da a chyflwyniad trefnus a chlir yn eich atebion. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnyddio atalnodi a gramadeg yn gywir, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 5.

JUN231570N50101

© WJEC CBAC Cyf.
PJ*(X22-1570N50-1)

**Astudiaeth achos i'w defnyddio gyda chwestiynau 1 a 2 yn Adran A**

Mae Gloria yn 74 oed. Ar ôl mudo (*migrating*) o Jamaica gyda'i rhieni a'i chwaer fach yn yr 1950au, fe wnaeth Gloria a'i theulu ymgartrefu yng Nghaerdydd. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Caerdydd yn ganolfan i lawer o grwpiau o fudwyr (*migrant groups*), a dyma oedd un o'r cymunedau amlhiliol hynaf (*oldest multi-ethnic communities*) ym Mhrydain.

Mae Gloria yn hoffi dweud wrth bobl eraill am ei phrofiadau. Mae hi'n aml yn sôn am ba mor anodd oedd bywyd i'r teulu bryd hynny. Roedd ei thad yn gweithio oriau hir yn y dociau, a'i mam yn gweithio fel glanhawraig ddomestig mewn ysbyty. Fel plentyn, roedd Gloria eisiau bod yn nyrs ac fe wnaeth ei rhieni ei hannog i weithio'n galed yn yr ysgol fel ei bod hi'n gallu gwireddu ei huchelgais (*ambition*). Fe wnaeth hi gymhwyso (*qualified*) fel nyrs a gweithio yn ei chymuned leol am 35 blwyddyn cyn ymddeol. Mae Gloria yn dweud ei bod hi wedi dioddef hiliaeth ar adegau yn ystod rhan gyntaf ei gyrfa, a "bryd hynny, roedd rhaid i chi fwrw ymlaen â'r gwaith heb unrhyw ffws".

Mae Gloria bob amser wedi mwynhau canu. Tan yn ddiweddar, roedd hi'n canu gyda'r côr yn yr eglwys leol. Roedd hi hefyd yn aelod o'i Chymdeithas Affro-Caribïaidd leol, sef grŵp o unigolion o dras Affro-Caribïaidd oedd yn cyfarfod bob wythnos i ddathlu'r diwylliant a'r dreftadaeth (*heritage*) roedden nhw'n eu rhannu.

Mae Gloria bob amser wedi byw ar ei phen ei hun. Wnaeth hi erioed briodi na chael plant. Ers ymddeol, mae hi wedi dibynnu ar ofal a chymorth ychwanegol gan ei nith, Rita. Mae Rita yn briod ac mae ganddi deulu ifanc.

Tua 6 mis yn ôl, sylwodd Rita ar newid yn Gloria. Roedd hi'n dechrau mynd yn anghofus (*forgetful*), yn ymddangos wedi drysu, ac roedd hi'n gyndyn (*reluctant*) i fynd allan a dilyn ei threfn arferol. Fe wnaeth Rita berswadio Gloria i ymweld â'i meddyg teulu. Cafodd Gloria ei hatgyfeirio (*referred*) gan y meddyg teulu i gael profion pellach, a chafodd ddiagnosis o ddechreuad (*onset*) dementia.

I ddechrau, gyda chymorth bob dydd gan weithwyr gofal, roedd Rita yn gallu cydbwyso (*balance*) gofalu am Gloria, ei swydd a chyfrifoldebau ei theulu ifanc gartref. Pan gafodd Rita ddyrchafiad (*promotion*) yn ei gwaith, bu'n rhaid i'r teulu symud i fyw 2 awr i ffwrdd o Gaerdydd. Dechreuodd Rita deimlo straen. Roedd hi'n teimlo'n euog oherwydd doedd dim amser ganddi i ofalu am Gloria yn iawn. Roedd hyn yn achosi dadlau a thensiwn rhwng Rita a'i gŵr oherwydd roedd e'n meddwl ei bod hi'n ceisio gwneud gormod.

Fe wnaeth Rita drefnu cyfarfod gyda Gloria a'i gweithiwr cymdeithasol. Fe wnaethon nhw drafod yr holl opsiynau oedd ar gael i Gloria, a phenderfynodd Gloria y byddai hi'n hoffi symud i ofal preswyl (*residential care*). Fe wnaeth y gweithiwr cymdeithasol argymell (*recommended*) cartref gofal sy'n defnyddio'r Cynllun Glöyn Byw (*Butterfly Scheme*) i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl sy'n byw yno.

O fewn 2 fis, symudodd Gloria i'r cartref gofal ac ymgartrefu'n gyflym. Mae Rita yn ymweld pan mae hi'n cael cyfle, ac mae hi'n falch o weld bod Gloria yn edrych yn hapus ac wedi gwneud ffrindiau â phobl eraill yn y cartref. Mae rhai o'r rhain o dras Affro-Caribïaidd hefyd.


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## ADRAN A

Atebwch **bob** cwestiwn.

**1.** Darllenwch yr astudiaeth achos am Gloria ac atebwch y cwestiynau isod.

(a) Amlinellwch **dri** ffactor fyddai wedi gallu hybu gwydnwch Gloria. [6]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

1570N501 03

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch beth yw cam olaf damcaniaeth datblygiad seicogymdeithasol Erikson. [6]



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Esboniwch sut byddai'r 'Cynllun Glöyn Byw' yn gallu helpu i ddarparu gofal a chymorth i Gloria. [8]





ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**2.** Mae nith Gloria, Rita, yn teimlo dan straen wrth geisio cydbwyso ei hymrwymiadau (*commitments*). Mae hi'n ymweld â'i meddyg teulu ac yn cael ei hatgyfeirio at gwnselydd sy'n defnyddio'r dull gwybyddol. Mae'r cwnselydd yn awgrymu bod Rita yn rhoi cynnig ar ioga neu fyfyrdod (*meditation*) er mwyn helpu i reoli ei straen.

(a) Disgrifiwch sut byddai ioga **neu** fyfyrdod yn gallu helpu Rita i reoli ei straen. [6]



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Dadansoddwch sut byddai'r dull gwybyddol yn gallu helpu Rita i reoli ei theimladau. [6]

1570N501
07



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Cyferbynnwch (*contrast*) y dull gwybyddol a'r dull seicodynamig ar gyfer cwnsela. [8]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**ADRAN B**

Atebwch **bob** cwestiwn.

**3.** Mae gan Rebecca anawsterau dysgu ac mae hi wedi bod yn byw mewn llety â chymorth (*supported accommodation*) am y 2 flynedd ddiwethaf. Roedd Rebecca a Sally wedi dod yn ffrindiau agos, ac roedden nhw'n mwynhau gwneud llawer o weithgareddau gyda'i gilydd. Symudodd Sally i lety gwahanol 6 mis yn ôl. Ers hynny, mae ymddygiad Rebecca wedi dirywio (*deteriorated*).

(a) Amlinellwch **ddau** ffactor fyddai wedi gallu achosi i ymddygiad Rebecca ddirywio yn ddiweddar. [4]

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

1570N501
09



© WJEC CBAC Cyf.



Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

(b) Mae'r rheolwr wedi cael cwynion gan bobl eraill sy'n byw yn y cartref bod Rebecca wedi troi'n ymosodol (*aggressive*), a'i bod hi hefyd yn chwarae cerddoriaeth uchel yn hwyr yn y nos sy'n effeithio ar eu cwsg (*sleep*).

Esboniwch sut byddai defnyddio 'Dull Adferol (*Restorative Approach*)' yn gallu helpu'r rheolwr i ddatrys y sefyllfa rhwng Rebecca a'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref. [6]



© WJEC CBAC Cyf.

(1570N50-1)

Arholwr yn unig

(c) Dadansoddwch beth yw effaith defnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog wrth ddelio ag ymddygiad heriol. [8]

**4.** Mae Ahmed yn 61 oed. Mae ganddo bwysedd gwaed uchel a diabetes. Mae meddyg teulu Ahmed wedi dweud y dylai Ahmed stopio ysmygu er mwyn gwella ei ddisgwyliad oes (*life expectancy*). Mae Ahmed yn dweud ei fod wedi dechrau ysmygu pan oedd yn blentyn yn ei arddegau (*teenager*) gan ei fod yn ffasiynol bryd hynny. Mae Ahmed yn teimlo bod ysmygu yn ei helpu i ymdopi â gorbryder (*anxiety*) ac mae'n dweud bod ei dad wedi ysmygu'n drwm ac wedi byw nes ei fod yn hen iawn.

(a) Amlinellwch **ddau** ffactor fyddai wedi gallu dylanwadu ar benderfyniad Ahmed i ysmygu. [4]

(b) Mae'r meddyg teulu yn rhoi taflen 'Helpa Fi i Stopio' i Ahmed. Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau hunangymorth (*self-help groups*) yn ei ardal.

Disgrifiwch sut mae grŵp hunangymorth yn gallu cefnogi unigolyn i stopio ysmygu. [6]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Esboniwch, gan ddefnyddio damcaniaeth ymddygiad, sut mae profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn gallu dylanwadu ar ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd. [6]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(ch) Mae gwydnwch yn gallu cefnogi unigolion i ymdopi â heriau (*challenges*).

Dadansoddwch sut byddai datblygu gwydnwch yn gallu helpu Ahmed i stopio ysmygu. [8]

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**5.** Mae Rhys newydd ddechrau yn y brifysgol ac mae'n poeni ei fod wedi dewis y cwrs anghywir. Mae'n teimlo'n bryderus (*anxious*) am ddweud wrth ei rieni gan eu bod nhw'n falch iawn o'r hyn mae wedi'i gyflawni ac mae'n ofni eu siomi nhw. Mae'r brifysgol yn cynnig gwasanaeth cwnsela ac mae Rhys wedi gwneud apwyntiad i siarad â chwnselydd sy'n defnyddio'r dull dyneiddiol (*humanistic approach*).

Disgrifiwch beth yw nodweddion allweddol y dull dyneiddiol, ac aseswch sut mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol. [18]

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# TUDALEN WAG

# PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON


© WJEC CBAC Cyf.